Prosiect Data: Templedi Casglu Data Cymwysterau Cyffredinol

Crynodeb o'r ymatebion i'n hymgynghoriad ar Dempledi Cymwysterau Cymru ar gyfer Casglu Data ar Gymwysterau Cyffredinol

1. Crynodeb

Ers diwedd 2016, mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn ystyried y ffordd orau o gasglu data a chyhoeddi ystadegau ar gymwysterau rheoleiddiedig a gynigir yng Nghymru. Ar ôl cyfnod o ymgysylltu â chyrff dyfarnu, rheoleiddwyr eraill a chyrff cynrychioliadol, rydym wedi datblygu templedi drafft ac amserlen arfaethedig ar gyfer casglu data ar gymwysterau cyffredinol y mae dysgwyr yng Nghymru yn astudio ar eu cyfer. Byddwn ond yn casglu data ar gymwysterau yr ydym yn eu rheoleiddio. Ar gyfer cymwysterau cyffredinol, byddwn yn casglu data ar gyfer dysgwyr a gofrestrir gan ganolfannau yng Nghymru ar gyfer:

- TGAU
- TAG
- Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
- Tystysgrifau Lefel 1/2/3 mewn cymwysterau cyffredinol, (dewisiadau eraill neu amgen i TGAU a TAG, er enghraifft tystysgrifau lefel 1/2, cymwysterau Prosiect Estynedig)

Ar 4 Awst 2017, gwnaethom lansio ymgynghoriad er mwyn ceisio barn rhanddeiliaid ar ba mor ddichonadwy y byddai'r templedi arfaethedig a'r amserlen gysylltiedig i gyrff dyfarnu. Ceir rhagor o wybodaeth am y cynigion yn y ddogfen ymgynghori ar wefan Cymwysterau Cymru. Anogwyd ymatebwyr i gwblhau ffurflen ymateb ar-lein cyn i'r broses ymgynghori ddod i ben ar 15 Medi 2017.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r penderfyniadau a wnaed gennym o ganlyniad i hynny.

2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cafodd Cymwysterau Cymru saith ymateb i'r ymgynghoriad hwn; cyflwynwyd pob un ohonynt drwy'r ffurflen ymateb ar-lein. Cyrff dyfarnu oedd wedi cyflwyno'r holl ymatebion. Mae pump o'r cyrff hynny yn dyfarnu cymwysterau cyffredinol yng Nghymru ar hyn o bryd, a byddai'r broses arfaethedig ar gyfer casglu data ar gymwysterau cyffredinol yn effeithio arnynt. Roedd pob un a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi ateb yr holl gwestiynau. Cafodd pob sylw ei ystyried gennym wrth wneud penderfyniadau ynghylch yr ymgynghoriad. Fel rhan o'n hymgynghoriad, gwnaethom ofyn y canlynol:

Cwestiwn 1: A yw ein cynigion ar gyfer casglu data ar gymwysterau cyffredinol ar gyfer dysgwyr a gofrestrwyd gan ganolfannau yng Nghymru yn glir?

Nododd yr holl ymatebwyr fod y cynigion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad ar gyfer casglu data ar gymwysterau cyffredinol ar gyfer dysgwyr a gofrestrwyd gan ganolfannau yng Nghymru yn glir.

Cwestiwn 2: A fyddai'n well gennych petaem (i) yn rhoi ein templedi arfaethedig neu fersiwn ohonynt a ddiwygiwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn ar waith, (ii) yn defnyddio templedi sy'n cyfateb i'r rhai a ddefnyddir gan Ofqual ar hyn o bryd, neu (iii) yn casglu data wedi'u dadgyfuno ar gymwysterau cyffredinol ar lefel ymgeisydd?

Nododd mwyafrif o'r ymatebwyr y byddai'n well ganddynt petaem yn defnyddio templedi sy'n cyfateb i'r rhai a ddefnyddir gan Ofqual ar hyn o bryd i gasglu data ar gymwysterau cyffredinol. Byddai'n well gan weddill yr ymatebwyr petaem yn rhoi ein templedi arfaethedig, neu fersiwn ohonynt a ddiwygiwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, ar waith. Ni nododd unrhyw ymatebwyr y byddai'n well ganddynt petaem yn casglu data wedi'u dadgyfuno ar gymwysterau cyffredinol ar lefel ymgeisydd. Nododd y rhan fwyaf o gyrff dyfarnu a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac sy'n dyfarnu cymwysterau cyffredinol yng Nghymru y byddai'n well ganddynt petaem yn defnyddio templedi sy'n cyfateb i'r rhai a ddefnyddir gan Ofqual ar hyn o bryd.

Roedd yr ymatebwyr a nododd y byddai'n well ganddynt petaem yn rhoi ein templedi arfaethedig, neu fersiwn ohonynt a ddiwygiwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn ar waith, wedi nodi bod;

1. Y dull gweithredu hwn yn dangos bod ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i'r data sydd eu hangen arnom at ein dibenion. O ganlyniad, roedd yr ymatebwyr hyn yn fodlon nad oedd gofyn iddynt ddarparu'r data'n ddiangen.
2. Y templedi arfaethedig yn cynrychioli dull gweithredu cymesur o gasglu data ar themâu gwahanol, ond cydnabu y byddai cyflwyno proses casglu data ar wahân yn arwain at faich ychwanegol. Fodd bynnag, roedd yn teimlo nad oedd y baich ychwanegol hwn yn annisgwyl nac yn anghymesur.

Gwnaeth yr ymatebwyr a nododd y byddai'n well ganddynt petaem yn defnyddio templedi sy'n cyfateb i'r rhai a ddefnyddir gan Ofqual ar hyn o bryd roi'r rhesymau canlynol dros hyn:

1. Cynefindra â thempledi Ofqual.

2. Mae cyflwyno data o'r fath yn gymhleth, yn enwedig o ystyried yr amrywiaeth o gynhyrchion a modelau cyflwyno gwahanol sy'n cael eu defnyddio. Byddai sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig rhwng rheoleiddwyr, a defnyddio'r un templedi ac amserlen, yn llai beichus i gyrff dyfarnu, yn osgoi llwyth gwaith ychwanegol ac yn osgoi dyblygu'r ymdrech y byddai ei hangen bob blwyddyn os oedd templedi'n wahanol.
3. Er mwyn darparu'r data drwy'r templedi a argymhellwyd gennym, byddai angen newid prosesau'n fawr a gwneud gwaith ailddatblygu technegol. Byddai angen buddsoddi'n sylweddol (amser ac arian) yn y gwaith hwn ac ni ellir ei gwblhau ar gyfer Haf 2018.
4. Mae cyrff dyfarnu yn darparu data i Ofqual mewn fformat newydd ar gyfer 2017. Cytunwyd ar y fformatau adrodd newydd hyn yn ddiweddar, ac maent wedi arwain at newidiadau i systemau casglu data. Nid oes gan gyrff dyfarnu ddarlun clir eto o unrhyw faterion mawr a all godi o ganlyniad i'r fformatau adrodd newydd hyn, ac maent o'r farn y byddai darparu'r un data mewn fformat gwahanol i ni yn cynyddu eu llwyth gwaith yn sylweddol. Gallai gwneud newidiadau ychwanegol i systemau er mwyn bodloni ein gofynion effeithio ar allu cyrff dyfarnu i ddarparu data i Ofqual yn y fformat a fynnir ganddo, gan y gall rhai o'r newidiadau fynd yn groes i brosesau presennol Ofqual.

Cwestiwn 3: A fydd darparu'r data yn y templedi arfaethedig sy'n debyg i'r rhai a ddefnyddir gan Ofqual yn creu anawsterau sylweddol i'ch sefydliad?

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y bydd y templedi arfaethedig sy'n debyg i'r rhai a ddefnyddir gan Ofqual yn creu anawsterau sylweddol i'w sefydliad. Roedd hyn yn cynnwys yr holl gyrff dyfarnu sy'n dyfarnu cymwysterau cyffredinol yng Nghymru a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Cyflwynodd ychydig o'r ymatebwyr sylwadau ar y gwahaniaethau rhwng y templedi a argymhellwyd gan Cymwysterau Cymru a'r templedi a ddefnyddir gan Ofqual ar hyn o bryd ar gyfer Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau, a Chofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn:

1. Mae Ofqual wedi cael gwared ar y gofyniad i gofnodi 'Cofrestriadau Rhagarweiniol yn ôl Grŵp Blwyddyn' yn y gyfres ddiweddar. Os hoffem gasglu'r data hwn o hyd, nid yw'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer eu darparu yn rhoi digon o amser i gyrff dyfarnu ddiwygio eu prosesau.
2. Bydd lefelau ychwanegol o ddata i'w cofnodi ar y templed 'Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau' yn golygu bod angen llunio cyfres wahanol o ddata i'w tynnu a dyblygu'r ymdrech a fydd ei hangen i lenwi ffurflen Ofqual. Mae'r ffurflen hon eisoes yn golygu bod angen gwneud addasiadau â llaw oherwydd y ffyrdd y caiff cynhyrchion llinol a modiwlar eu dal o fewn systemau prosesu, a bod

angen gwybodaeth fusnes i bennu pa ddata mewn meysydd cyffredin y mae angen eu dehongli a'u haddasu ar gyfer mathau gwahanol o gymwysterau.
3. Byddai rhannu cofrestriadau a dyfarniadau yn ôl uned yn golygu bod angen gwneud newidiadau sylweddol gan y bydd angen llunio adroddiadau newydd.

Nododd yr ymatebwyr yr anawsterau canlynol hefyd i ddarparu'r data yn y templedi arfaethedig eraill sy'n debyg i'r rhai a ddefnyddir gan Ofqual:

1. Mae cysylltu unedau unigol â chodau'r fanyleb a Rhifau Achredu Cymwysterau yn anodd, ac nid yw bob amser yn ymarferol gan nad oes perthynas un i un rhyngddynt bob amser.
2. Yn 2017, gofynnodd Ofqual i gyrff dyfarnu yn Lloegr gael gwared ar y Gwasanaeth Adolygu Estynedig i ysgolion. O ganlyniad, nid yw cyrff dyfarnu yn casglu'r data hyn ar hyn o bryd.

Cwestiwn 4: A fydd darparu'r data yn y templedi arfaethedig sy'n wahanol iawn i'r rhai a ddefnyddir gan Ofqual yn creu anawsterau sylweddol i'ch sefydliad?

Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr y bydd darparu'r data yn y templedi arfaethedig sy'n wahanol iawn i'r rhai a ddefnyddir gan Ofqual yn creu anawsterau sylweddol i'w sefydliad. Roedd hyn yn cynnwys yr holl gyrff dyfarnu sy'n dyfarnu cymwysterau cyffredinol yng Nghymru a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Nododd llawer o'r ymatebwyr a oedd o'r farn hon y byddai angen casglu, tynnu a dadansoddi data i Ofqual a Cymwysterau Cymru ar wahân, gan ddefnyddio prosesau gwahanol. Nododd ychydig o ymatebwyr bod rhywfaint o'r data sydd eu hangen i fodloni ein gofynion templedi arfaethedig ddim yn cael eu cipio ar hyn o bryd. Nododd y mwyafrif, er mwyn hwyluso'r broses o gasglu a phrosesu'r data sydd eu hangen, y byddai angen iddynt ailddatblygu eu systemau i ymgymryd â'r tasgau hyn, ond i raddau amrywiol. Nododd ychydig o'r ymatebwyr eu bod wedi gwneud gwaith ailddatblygu tebyg yn ddiweddar, ac wedi buddsoddi'n sylweddol yn y gwaith hwn, er mwyn bodloni gofynion templedi Ofqual, tra bod eraill wedi nodi y byddai gwaith ailddatblygu o'r fath yn effeithio ar allu eu sefydliad i reoli cynnwys ei lwyth gwaith. Nododd ychydig o ymatebwyr yn arbennig y byddai angen iddynt gael rhybudd ymlaen llaw ynghylch y templedi ac ni fyddai'r dyddiadau arfaethedig yn darparu digon o amser er mwyn ymdrin â newidiadau o'r fath.

Nododd ychydig o'r ymatebwyr yr anawsterau y byddent yn eu hwynebu gyda thempledi penodol:

1. Nid yw data gradd uned na data is-uned ar gyfer templedi Adolygu Gwaith Marcio ac Apeliadau yn cael eu cipio ar hyn o bryd.
2. Mae adrodd ar adolygiadau o waith marcio a gwaith safoni yn achosi problemau, ac mae angen trin cryn dipyn o ddata â llaw. Bydd angen cael trafodaethau parhaus ynghylch y ffordd y mae angen i senarios gwahanol gael eu hadlewyrchu ar y ffurflenni data hyn.
3. O ran y templed camymddwyn, byddai angen ailddadansoddi'r data presennol lle mae'r meysydd yn wahanol i feysydd Ofqual.

Cwestiwn 5: Yn eich barn chi, a oes unrhyw agweddau ar y templedi casglu arfaethedig y gellid eu gwella?

Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr y gellid gwella'r templedi casglu arfaethedig. Roedd hyn yn cynnwys yr holl gyrff dyfarnu sy'n dyfarnu cymwysterau cyffredinol yng Nghymru a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Wrth ateb y cwestiwn hwn, nododd yr ymatebwyr yr ystyriaethau canlynol ar gyfer gwella'r templedi arfaethedig:

1. O ran y templed 'Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau', gofynnwyd am esboniad o'r rhesymau dros ofyn am y data ar lefel manyleb ac uned/elfen ar gyfer cofrestriadau a dyfarniadau llinol. Awgrymwyd mai dim ond cod y fanyleb ar lefel maes llafur y mae angen i Cymwysterau Cymru ei gasglu, ac y byddai hyn yn golygu bod colofn y cod mynediad a cholofn cod yr uned/elfen yn rhai diangen.
2. Ystyried cysoni'r colofnau yn y 'Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn' i'w cyflwyno fel bod ganddynt yr un enwau a'u bod yn yr un drefn â'r hyn sydd i'w weld yn nhempled Ofqual.
3. Nid yw'r derminoleg bob amser yn glir, ac mae'n agored i'w dehongli. Nid yw'r gwahaniaeth rhwng cymwysterau llinol ac unedol yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol mewn templedi bob tro. Er enghraifft, mae gradd elfen mewn cymhwyster llinol yn gysyniad tybiannol ar y gorau. Er bod ffiniau yn cael eu pennu ar y lefel honno, nid yw cyrff dyfarnu yn hysbysu canolfannau am raddau elfen.
4. Caiff gofynion Ofqual eu pennu ochr yn ochr â rheolau dilysu manwl. Byddai'n ddefnyddiol i gyrff dyfarnu ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud hyn gyda ni.
5. Byddai'n ddefnyddiol pe bai ni yn nodi pa ddull sy'n well gennym wrth weithio gyda chyrff dyfarnu er mwyn ymateb i ymholiadau yn ystod y broses o gasglu ac adrodd ar ddata.
6. Adolygu'r ffordd y caiff data eu casglu ar gyfer y 'broses atgyfeirio Trefniadau Mynediad' i gyd-fynd â chyhoeddiad blynyddol y Cyd-bwyllgor Cymwysterau ar Drefniadau Mynediad. Ystyriwyd na fyddai gofyn am atgyfeiriadau rhanbarthol yn ein templedi arfaethedig rhoi syniad o'r holl drefniadau i Gymru, ac y gellid llunio

adroddiad mwy defnyddiol drwy roi darlun llawn o'r defnydd o drefniadau mynediad arholiadau ledled y rhanbarth/gwlad.

7. Ystyried gwahanu'r mathau o gamymddwyn a chanlyniadau, fel y'u diffinnir yn nogfen Amau Camymddwyn y Cyd-bwyllgor Cymwysterau. Mae Ofqual wedi defnyddio'r ddogfen hon er mwyn ceisio cyflwyno set data fwy ymarferol ac ystyrlon.

Cwestiwn 6: Yn eich barn chi, a yw'r amserlen gasglu arfaethedig yn rhesymol ac yn gyflawnadwy?

Nododd ychydig dros hanner yr ymatebwyr eu bod o'r farn bod yr amserlen gasglu arfaethedig yn rhesymol ac yn gyflawnadwy. Roedd ymatebion y cyrff dyfarnu sy'n dyfarnu cymwysterau cyffredinol yng Nghymru yn wahanol.

O'r rhai a oedd o'r farn nad oedd yr amserlen gasglu arfaethedig yn rhesymol nac yn gyflawnadwy, nodwyd pryder ynghylch rheoli'r ffordd y caiff data eu cyflwyno i Ofqual a Cymwysterau Cymru, drwy dempledi gwahanol, pan fydd y ddwy amserlen yn gorgyffwrdd â'i gilydd. Nodwyd hefyd na fyddai gan gorff dyfarnu ddigon o amser i ddarparu'r data gofynnol oherwydd eu prosesau presennol ar gyfer derbyn a rheoli data. Ailbwysleisiodd ymatebydd arall y pryder ynghylch y baich ar gyrff dyfarnu i ddarparu data gan ddefnyddio fformatau gwahanol i'r rhai a ddefnyddir gan Ofqual.

Cwestiwn 7: Yn eich barn chi, a oes unrhyw agweddau ar yr amserlen gasglu arfaethedig y gellid eu gwella?

Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr y gellid gwella'r amserlen gasglu arfaethedig. Roedd hyn yn cynnwys yr holl gyrff dyfarnu sy'n dyfarnu cymwysterau cyffredinol yng Nghymru a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Gwnaed yr awgrymiadau canlynol ar gyfer gwella'r amserlen:

1. Byddai cysoni'r amserlen gasglu yn fwy ag amserlen gyflwyno Ofqual, gan gynnwys dyddiadau cau a dyddiadau cyflwyno ar gyfer data, yn lleihau'r llwyth gwaith gan y gellid paratoi ffeiliau ar yr un pryd. Byddai hefyd yn fodd i ystadegau gael eu cymharu'n hanesyddol, ar draws rhanbarthau a rhwng cyrff dyfarnu.
2. Byddai rhoi union ddyddiadau, yn hytrach na slotiau amser misol, yn ddefnyddiol er mwyn helpu i gynllunio'r gwaith o gasglu a chyflwyno data.

Cwestiwn 8: Rhowch adborth ar ymarferoldeb casglu data ar yr iaith neu'r ieithoedd a ddefnyddir gan ymgeiswyr i ymateb i dasgau asesu ar lefel elfen. Pa newidiadau, os oes unrhyw rai, y byddai angen eu gwneud er mwyn gwneud hyn? Faint o amser y byddai'n ei gymryd i wneud newidiadau o'r fath?

Cafwyd cymysgedd o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Nododd tua hanner yr ymatebwyr nad ydynt yn cynnig asesiadau cyfrwng Cymraeg, felly na fyddai'n berthnasol iddynt. Fodd bynnag, gwnaethant ofyn i Cymwysterau Cymru ystyried gofyn am y wybodaeth hon gan gyrff dyfarnu sy'n cynnig asesiadau cyfrwng Cymraeg yn unig er mwyn osgoi llu o ffurflenni â dim gwybodaeth arnynt.

Nododd un ymatebydd ei fod wedi ystyried, mewn egwyddor, sut y gellid cipio gwybodaeth o'r fath, ac y byddai'n angenrheidiol gwneud newidiadau i nifer o systemau TG a phrosesau cysylltiedig er mwyn cipio'r data hyn yn gywir. Nid yw'r ymatebydd yn siŵr faint o amser y byddai ei angen i wneud newidiadau o'r fath, yn rhannol oherwydd byddai natur y prosesau asesu a marcio yn pennu'r gofynion, ond nododd nad yw'n debygol o fod yn bosibl ar gyfer gweithredu'r broses casglu data ar gymwysterau cyffredinol.

Nododd un ymatebydd mai dim ond ar gyfer rhai mathau o ddata i'w cyflwyno y mae data ar yr iaith neu'r ieithoedd a ddefnyddir gan ymgeiswyr mewn tasgau asesu ar lefel elfen yn cael eu cipio ar hyn o bryd (Cofrestriadau yn ôl Grŵp Oedran ac Adolygiadau o Waith Marcio), a dim ond ar gyfer asesiadau lle y crëwyd cod mynediad penodol i ddysgwyr sydd am gymryd yr asesiad yn Gymraeg (fel arfer dim ond arholiadau a asesir yn allanol).

Nododd ymatebydd arall nad yw gwybodaeth am yr iaith asesu yn cael ei chadw ar eu systemau, a phan fydd canolfannau yn gofyn am bapurau cyfrwng Cymraeg, maent yn aml yn cael eu cwblhau yn Saesneg. Mae hyn yn achosi dryswch ynghylch sut i gofnodi'r data hyn.

Cwestiwn 9: Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y dull gweithredu arfaethedig neu unrhyw gwestiynau amdano, neu os ydych o'r farn nad yw rhywbeth wedi cael ei esbonio'n ddigon da, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod i ni.

Manteisiodd ychydig o'r ymatebwyr ar y cyfle i gyflwyno rhagor o sylwadau. Gofynnodd un ymatebydd am ragor o wybodaeth am y ffordd y dylid cyflwyno data i Cymwysterau Cymru a'r ffordd y bydd diogelwch yn cael ei gynnal, tra gwnaeth ymatebydd arall nodi bod ein dull gweithredu arfaethedig i'w weld yn briodol ac yn gymesur, yn enwedig o ran data ar lefel ymgeisydd, a'i fod yn croesawu'r lefel uchel o ymgysylltu â ni drwy ddatblygu'r dull gweithredu hwn.

Nododd un ymatebydd mai'r cyfnod ar ôl dyfarnu yn yr haf yw'r adeg orau i gynnal ymgyngoriadau ar brosesau casglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata fel arfer. Mae hyn yn sicrhau nad yw adnoddau yn cael eu hailgyfeirio o gyflwyno cyfres dyfarnu'r haf a bod digon o amser i ailddatblygu systemau er mwyn hwyluso unrhyw newidiadau, cyn cyfres dyfarnu'r haf nesaf.

3. Datganiad o benderfyniad

Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod gwahaniaeth barn ar y templedi arfaethedig ar gyfer casglu data ar gymwysterau cyffredinol. O ganlyniad i'r gwahaniaethau hyn, gwnaeth Cymwysterau Cymru ragor o waith ymgysylltu â chyrff dyfarnu sy'n dyfarnu cymwysterau cyffredinol yng Nghymru (atodiad 1) er mwyn deall yr ymatebion yn well. Ar ôl y gwaith ymgysylltu hwn, gwnaethom ddadansoddi'r opsiynau ar gyfer casglu data ar gymwysterau cyffredinol.

Un ffactor allweddol sy'n cyfrannu at ein penderfyniad yw ein bod bellach yn gyfrifol am gasglu data i gyhoeddi ystadegau cymwysterau cyffredinol i Gymru. Felly, mae angen ateb yn gyflym, yn ogystal ag eglurder i bawb dan sylw.

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen ag opsiwn 2: defnyddio templedi sy'n cyfateb i'r rhai a ddefnyddir gan Ofqual ar hyn o bryd i gasglu data hyd y gellir. Fodd bynnag, bydd rhoi'r templedi hyn ar waith yn golygu rhywfaint o wahaniaethau angenrheidiol mewn prosesau:

1. Cyflwyno'r data i ni drwy ein porth QiW.
2. Byddwn yn gweithio tuag at annog ychwanegu rhifau cymwysterau QiW at systemau cyrff dyfarnu.
3. Bydd casgliadau ychwanegol ar ein cyfer, a drefnwyd lle y bo'n berthnasol i Gymru oherwydd y cyfleoedd asesu gwahanol sydd ar gael yma o'u cymharu ag yn Lloegr.
4. Ni fyddwn yn casglu rhai o'r templedi ar yr amserlen a gyhoeddwyd gan Ofqual drwy QiW yn rheolaidd, h.y. Errata, Sgriptiau Coll, Nifer yr Atgyfeiriadau a Swyddi Arholwr/Safonwr. Pan fydd angen data, bydd hyn naill ai'n cael eu cipio yn ôl y rheoliad fel rhan o fusnes arferol neu drwy gais ad hoc am ddata.

Dywedodd mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad mai'r opsiwn hwn a ffafriwyd ganddynt. Bydd y penderfyniad i ddefnyddio templedi Ofqual i gasglu data yn aros ar gyfer y cyfnod diwygio cymwysterau, a bydd yn cael ei adolygu erbyn chwarter cyntaf 2020.

Penderfynwyd gwrthod opsiwn 1, rhoi ein templedi arfaethedig neu fersiwn ohonynt a ddiwygiwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn ar waith, gan y bydd rhoi'r templedi arfaethedig ar waith yn faich ar systemau a phrosesau cyrff dyfarnu yn y byrdymor. Yn ogystal, ar ôl trafod ymhellach â chyrff dyfarnu, ystyriwyd bod angen i'r templedi arfaethedig fod yn gliriach. Ni ddywedodd unrhyw un a ymatebodd i'r ymgynghoriad y byddai'n well ganddynt pe bai data wedi'u dadgyfuno ar lefel ymgeiswyr yn cael eu casglu, felly cafodd yr opsiwn hwn (3) ei wrthod. Oherwydd yr ymatebion a gafwyd, gwnaethom ystyried p'un a ellid cael opsiwn ychwanegol drwy gyfuno opsiynau eraill; er hynny, cafodd yr opsiwn hwn ei wrthod oherwydd materion yn ymwneud ag eglurder a llwyth gwaith yn ogystal â'r ffaith nad ymgynghorwyd arno.

4. Y camau nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, bydd Cymwysterau Cymru yn cysylltu â chyrff dyfarnu i egluro manylion templedi'r cymwysterau cyffredinol a rhoi amserlen gasglu ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18.

Rhagor o Wybodaeth:

Tîm Prosiect Data
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

prosiectdata@cymwysteraucymru.org

Atodiad 1: Ymatebion Ymgysylltu Ychwanegol

O ganlyniad i'r gwahaniaeth barn a fynegwyd yn ein hymgynghoriad, gwnaethom wahodd y cyrff dyfarnu hynny sy'n dyfarnu cymwysterau cyffredinol yng Nghymru i ymgysylltu â ni ymhellach. Cytunodd pedwar corff dyfarnu i'r cais hwn. Cafwyd y trafodaethau hyn rhwng 16 Hydref 2017 a 19 Hydref 2017; roedd tair ohonynt yn drafodaeth dros Skype ac roedd un yn gyfarfod wyneb yn wyneb. Yn ystod y trafodaethau hyn, gofynnwyd i'r cyrff dyfarnu ddisgrifio'r systemau a'r prosesau y byddai angen iddynt eu defnyddio i ddarparu data i ni, ac i roi rhagor o wybodaeth am agweddau ar eu hymatebion i'r ymgynghoriad.

Wrth drafod eu systemau a'u prosesau gwybodaeth, nododd y mwyafrif o'r cyrff dyfarnu a gymerodd ran yn y gweithgarwch ymgysylltu ychwanegol hwn fod mwy nag un system yn cael ei defnyddio i dynnu data. Roedd y broses dynnu hon, a'r gwaith dilynol o brosesu'r data i fodloni gofynion casglu data, yn aml yn cynnwys sawl proses â llaw. Roedd rhai o'r enghreifftiau a roddwyd o systemau ychwanegol yn cynnwys: taenlenni; systemau ar gyfer marcio ar y sgrin; cronfeydd data apeliadau; a phyrth trefniadau mynediad. Nododd un corff dyfarnu fod cyflwyno data ar gyfer ein templed 'Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn' yn broses â llaw lle y caiff data ar lefel ymgeisydd eu coladu all-lein. Felly, gyda'u system bresennol, ni fydd yn gallu tynnu'r data sydd eu hangen ar gyfer y templed 'Cofrestriadau yn ôl Grŵp' arfaethedig. Fodd bynnag, nododd un corff dyfarnu y byddai ei system casglu data bresennol yn gallu rheoli'r broses goladu ar gyfer y templedi arfaethedig. Nododd un corff dyfarnu y byddai angen defnyddio llawer o adnoddau i newid ei system a'i brosesau, a gall hyn beryglu ei allu i gwblhau gwaith yn erbyn dyddiadau cau.

Nododd ychydig o'r cyrff dyfarnu a gymerodd ran yn y gweithgarwch ymgysylltu hwn fod eu systemau gwybodaeth eisoes wedi cael eu haddasu'n sylweddol er mwyn cipio'r data a fynnir gan dempledi newydd Ofqual i gasglu data ar lefel ymgeisydd.[1] Wrth drafod templedi 'camymddwyn', nododd un corff dyfarnu na fyddai darparu data ar gyfer ein templedi arfaethedig, sy'n debyg i dempledi blaenorol Ofqual, yn broses syml. Nododd corff dyfarnu arall fod Ofqual wedi penderfynu casglu data wedi'u dadgyfuno oherwydd ymholiadau yn ymwneud â chywirdeb data wedi'u cyfuno a'r gallu i gymharu'r data hynny â'r hyn a oedd yn cael ei fesur.

Cyflwynodd pob corff dyfarnu a gyfrannodd at y trafodaethau hyn sylwadau ar gymhlethdodau strwythurau data. Roedd y cymhlethdodau hyn yn cael eu trafod yn aml o ran casglu data ystyrlon ar gyfer manylebau unedol o gymharu â manylebau llinol, gan gynnwys rhwng manylebau etifeddol/diwygiedig ac anniwygiedig. Yn enwedig, ystyriodd y cyrff dyfarnu rai o'r heriau sy'n gysylltiedig â chysylltu gwybodaeth am gofrestriadau ag adolygiadau o waith marcio ac apeliadau estynedig. Yn fwy penodol, tynnwyd sylw at yr anawsterau canlynol:

[1] Mae'r pedwar templed hyn wedi cael eu rhoi ar waith fesul cam dros y 2 flynedd ddiwethaf.

1. Gallai diffyg diffiniadau penodol o unedau, is-unedau ac elfennau, o ran y templedi casglu, arwain at anghysondeb rhwng cyrff dyfarnu.
2. Nid yw cyrff dyfarnu o reidrwydd yn storio'r math hwn o wybodaeth am bob cymhwyster yn gyson yn eu systemau. Er enghraifft, gall fod anghysondeb rhwng cymwysterau etifeddol a chymwysterau diwygiedig o ran sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei chadw.
3. Analluogrwydd i gysylltu cofrestriadau uned o fewn cyfres ddyfarnu benodol â chofrestriadau cyfnewid mewn cyfresi diweddarach, yn enwedig ar gyfer unedau sy'n cyfrannu at fwy nag un cymhwyster. Nododd un corff dyfarnu y gallai hyn arwain at gyfrif unedau ddwywaith yn ein templedi arfaethedig dros amser (h.y. cofrestriadau uned ac adolygiadau o waith marcio a gasglwyd mewn un gyfres, ond sy'n cael eu casglu eto pan fydd cofrestriad cyfnewid cymhwyster ar gyfer manyleb unedol yn digwydd mewn cyfres ddiweddarach).
4. Nododd un corff dyfarnu fod adolygiadau o waith marcio ar gyfer cymwysterau unedol yn cael eu cymhwyso fesul uned, ond, gallai fod nifer o elfennau o fewn uned (ac felly nid oedd yn glir a oedd yn rhaid dyblygu data ar draws elfennau).
5. Gwnaed newidiadau i'r gwasanaeth Adolygu Estynedig. Nododd un corff dyfarnu nad oedd yn sicr a oedd yn casglu'r data perthnasol i'w cyflwyno i Ofqual.

Pan ofynnwyd i'r cyrff dyfarnu gadarnhau a oedd codau QiW yn cael eu cofnodi yn erbyn cymwysterau ar eu systemau, nododd y mwyafrif ohonynt nad ydynt o reidrwydd yn cofnodi codau QiW yn erbyn cymwysterau. Mae hyn yn golygu na ellir defnyddio rheolau sy'n seiliedig ar god QiW ar hyn o bryd i dynnu data ar gymwysterau cymeradwy a dynodedig.

Nododd hanner y cyrff dyfarnu a gymerodd ran yn y gweithgarwch ymgysylltu hwn y byddai'r templedi ystyriaeth arbennig arfaethedig yn creu gwaith ychwanegol iddynt. Er enghraifft, nododd un corff dyfarnu y byddai angen iddo wneud gwaith â llaw i boblogi'r templedi, a nododd un arall y byddai ychwanegu rhesi ychwanegol at y templedi arfaethedig yn golygu bod angen tynnu mwy o ddata.

Nododd y mwyafrif o'r cyrff dyfarnu y siaradwyd â nhw y byddai'n well ganddynt pe bai ni yn pennu amserlen sy'n cyfateb i amserlen gasglu Ofqual hyd y gellir. Nododd un corff dyfarnu y byddai amserlenni tebyg yn fuddiol o ran cynllunio ac amserlennu ac yn eu helpu i reoli adnoddau pan fydd dyddiadau cau yn agosáu.

Mewn trafodaeth, nododd un corff dyfarnu y byddai'n bwysig ystyried llywodraethu data ar gyfer y casgliadau rheolaidd ad-hoc. Roedd pwyslais arbennig ar bwysigrwydd llywodraethu data ar gyfer casglu data wedi'u dadgyfuno ar lefel ymgeisydd.